# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

## Cofnodion Cyfarfod
### 1af Ebrill 2026 yn rhithiol ar Teams

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng. Dewi Gwyn (Cadeirydd), Nia Jones, Llinos Roberts, Heulwen Owen.<br>Cynghorwyr Sirol:<br>Gillian Morris (Clerc) | |
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU**<br>Janet Jones, Owain Evans, D.Idriswyn Roberts<br>Cynghorwyr Sirol: Robin Williams, Sonia Williams, Dyfed Jones. |
| **2.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 04/03/2026. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir, LIR yn cynnig, HO yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | Hysbysfyrddau – Fe fydd yr hysbysfwrdd yn Star yn cael ei osod cyn diwedd y mis. |
| **4.2** | Cysgodfan Bws Star – Disgwyl i Menter Môn gysylltu gyda dyluniadau ar gyfer y gysgodfan. |
| **4.3** | Ffordd Ael Y Garnedd - Clerc yn trafod gyda CSYM. |
| **4.4** | Biniau Graeanu - Bin wedi ei osod yn Star, disgwyl ymateb gan CSYM ynglŷn â'r lleoliad ym Mhenmynydd. |
| **5.0** | **Materion ariannol** |
| **5.1** | Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa ariannol. |
| **5.2** | Taliadau - Cymeradwyo taliadau. |
| **5.3** | Cyllid chwarterol 4 - Cafwyd diweddariad gan y Clerc. |
| **5.4** | Datganiad Ariannol ac Archwiliadau Cyllidol |
| **5.5** | Taliadau Aelodau a Buddion - i'w cael ei ddiweddaru ar y wefan |
| **6.0** | **GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN:** |
| **6.1** | Datganiad: Cymeradwyo Cyllideb fydd yn cynnal gwasanaethau hanfodol. Treth Cyngor yn cynyddu 5.1% |
| **6.2** | Pwyllgor Safonau 22 Ionawr 2026 (adborth). |
| **6.3** | Her y Cadeirydd - Llwybr yr Arfordir. |
| **6.4** | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - adroddiad gyda diweddariad Mawrth 2026. |
| **7.0** | **Ceisiadau cynllunio:** |
| **7.1** | Cais Cynllunio: LBC/2026/4 - Braint, Ffordd Penmynydd, Penmynydd - Dim gwrthwynebiad. |
| **8.0** | **Penderfyniad Cynllunio:** |
| **8.1** | Dim |
| **9.0** | **Gohebiaeth Ychwanegol** |
| **9.1** | Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg - DG wedi derbyn gohebiaeth ynglŷn â'r pwynt trafod. Cefnogwyd y cais yn unfrydol - y Clerc i yrru e-bost at yr Arolwg Ordnans er mwyn pwyso arnynt i ddefnyddio enwau Cymraeg hanesyddol ar eu mapiau. |
| **9.2** | E Bwletin Un Llais Cymru #19 |
| **9.3** | E-Bwletin Un Llais #20 |
| **9.4** | Diweddariad Rhanddeiliaid Pont Menai |
| **9.5** | Sedd wag - EW wedi ymddiswyddo o'i rôl fel Cynghorydd. Clerc i gysylltu gyda CSYM i hysbysebu. Clerc i gysylltu gyda EW i ddiolch am ei gwaith. |

# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

| | |
|---|---|
| **10.0** | **Materion Eraill** |
| **10.1** | Adroddiad blynyddol y Cadeirydd - Wedi ei gylchredeg i'r aelodau ac ar y wefan. |
| **11.0** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| **11.1** | Ethol Swyddogion |
| **11.2** | Llenwi'r set wag ac etholiadau Mai 2027 |
| **11.3** | Trafod pennu ardal Penmynydd a Star yn "Ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch" - DG i rannu gwybodaeth |
| **11.4** | Cymeradwyo'r Cyfrifon a'r Datganiad Ariannol **os ydi'r Archwiliad Mewnol yn caniatáu** |
| **11.5** | Penodi / Ailbenodi Archwilwyr Mewnol |
| **11.6** | Adolygu prif ddogfennau'r Cyngor a'r Cynllun Hyfforddiant |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Nos Fercher 6ed Mai, 2026 am 7:00yh |
| **Manylion cyswllt:** Gillian Morris penmynyddcc@gmail.com | |

**Llofnod** **Dyddiad**